

## Cronfa Datblygiadau Strategol y Coleg 2016/17

**Dyddiad:** 26 Ionawr 2017

**Cyfeirnod:** 16/04

**I:** Penaethiaid sefydliadau addysg uwch Cymru, Grŵp Ymgynghorol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, cydlynwyr darpariaeth cyfrwng Cymraeg sefydliadol a Swyddogion Cangen.

**Ymateb Erbyn:** 12:00, 3 Mawrth 2017

**Cyswllt:** Catrin Williams

**E-bost:** c.williams@colegcymraeg.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn gwahodd ceisiadau am grantiau strategol i'w dyfarnu o Gronfa Datblygiadau Strategol y Coleg.

**Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

## Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb ar gyfer prosiectau i'w cyllido gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i gychwyn ym Mawrth 2017.
2. Yn Ionawr 2017 lanswyd Cynllun Academaidd newydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r Cynllun yn gosod cyfeiriad strategol ar lefel uchel ar gyfer penderfynu ar sut y bydd y Coleg yn cefnogi datblygiadau academaidd yn y prifysgolion dros y pum mlynedd nesaf.
3. Y cam nesaf yn dilyn lansio'r Cynllun fydd adolygu'r cynlluniau pwnc sydd yn manylu ar sut y bydd y Cynllun yn cael ei weithredu yng nghyd-destun gwahanol ddisgyblaethau. Fodd bynnag, y mae rhai blaenoriaethau eisoes wedi cael eu hadnabod sydd yn berthnasol i nifer fawr o ddisgyblaethau ac, yn y cyd-destun hwnnw, mae'r Coleg yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb mewn prosiectau strategol a fydd yn gosod egwyddorion y Cynllun Academaidd ar waith.
4. Mae'r Cynllun Academaidd newydd yn gosod 'yr hawl i addysg uwch Cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf' yn ffrâm i'r gweithgarwch, ac mae'r Cynllun yn manylu ar nifer o flaenoriaethau er mwyn cyfoethogi profiad y myfyriwr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod adnoddau safonol ac addas ar gael yn y Gymraeg mewn ystod eang o feysydd.
5. Yn ystod y trafodaethau wrth ddatblygu'r Cynllun Academaidd nodwyd nifer o themâu sydd yn gyffredin ar draws disgyblaethau, a lle mae'n briodol i gomisiynu prosiectau cyn i'r gwaith manwl o adolygu'r cynlluniau pynciol unigol gael ei gwblhau. Felly bydd y prosiectau a gomisiynir ym Mawrth 2017 yn ymdrin a'r themâu yma.
6. Noder bod y cylch cyllido hwn yn digwydd yn hwyrach na'r disgwyl gan i'r Coleg ohirio cynnal proses debyg yn ystod 2015/16 yn wyneb yr ansicrwydd cyllidol oedd yn wynebu'r Coleg ar y pryd. Bydd y dyraniadau yma yn ddibynnol ar gadarnhad o'r sefyllfa gyllidol gan y Cyngor Cyllido Addysg Uwch a Llywodraeth Cymru.

## Datganiadau o ddiddordeb

7. Gwahoddir mynegiadau o ddiddordeb ar gyfer prosiectau o'r mathau canlynol:

- a) E-lawlyfrau / E-werslyfrau / E-gyfeirlyfrau.

Yn ystod y trafodaethau ar ddatblygiad y Cynllun Academaidd, mae myfyrwyr wedi adnabod diffyg adnoddau cyfrwng Cymraeg fel un o'r prif heriau o ran eu darbwylo i astudio modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg – a hynny yn benodol mewn meysydd sydd wedi datblygu yn fwy diweddar o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn y cyd-destun hwn, mae sawl panel pwnc wedi trafod yr angen am werslyfrau / e-adnoddau i gyd-fynd gyda modiwlau / cyrsiau / testunau craidd a addysgir yn y Gymraeg. Gwahoddir felly

geisiadau ar gyfer creu e-lawlyfrau ar gyfer modiwlau / testunau craidd a addysgir ar draws y prifysgolion lle cynigir darpariaeth yn y Gymraeg yn y pwnc perthnasol.

Gwahoddir datganiadau o ddiddordeb mewn datblygu adnoddau a fydd, fel arfer, yn cael eu defnyddio mewn o leiaf dau sefydliad. Bydd angen nodi yn benodol y modiwlau / cynlluniau gradd perthnasol lle bydd yr adnodd, o'i ddatblygu o dan nawdd y Coleg, yn cael ei ddefnyddio.

b) Cyrsiau byr / blasu er mwyn hybu dilyniant.

Mae darpariaeth sylweddol wedi ei datblygu yn y Saesneg mewn blynyddoedd diweddar o gyrsiau byr sy'n cyflwyno pwnc neu sgiliau penodol i'r sawl sy'n ystyried astudio yn y brifysgol. Gall y cyrsiau blasu hyn fod yn rhai cyffredinol, e.e. cwrs gan UCAS parthed ymgeisio'n llwyddiannus am le yn y brifysgol; neu'n cynnig blas ar bwnc, e.e. cwrs i gyflwyno cyfleoedd gyrfa mewn maes galwedigaethol; neu'n cynnig gwybodaeth benodol fel sail i gychwyn cwrs, e.e. cwrs byr i adolygu gwybodaeth wyddonol er mwyn sicrhau fod gan fyfyrwyr yr un lefel o wybodaeth ar gychwyn y flwyddyn gyntaf. Gwahoddir felly geisiadau i ddatblygu cyrsiau byr ar-lein a fydd yn hybu dilyniant i gyrsiau addysg uwch, gan roi blaenoriaeth benodol i bynciau lle mae recriwtio niferoedd digonol o fyfyrwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn her.

Gwahoddir ceisiadau ar gyfer datblygu cyrsiau blasu, yn enwedig mewn meysydd sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Academiaidd fel meysydd blaenoriaeth o ran anghenion cynllunio gweithlu yng Nghymru.

Yn ogystal, gwahoddir cynigion ar gyfer symbylu myfyrwyr nad ydynt yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd i wneud hynny. Ystyrir cynigion o'r fath yng nghydestun gwaith sydd wedi ei gomisiynu gan y Coleg yn y gorffennol.

c) Adnoddau ymwybyddiaeth iaith ar gyfer disgyblaethau penodol.

Mae'r Coleg eisoes wedi datblygu CAEA arobryn ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog ym maes Gwaith Cymdeithasol. Gwahoddir ceisiadau i ddatblygu adnoddau addas – a fyddai'n rhan o ddarpariaeth wedi'i hachredu fel darpariaeth cyfrwng Cymraeg – i gyflwyno ystyriaethau ieithyddol / gweithredu'n ddwyieithog i feysydd galwedigaethol penodol.


Noder bod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn comisiynu datblygiadau ym maes ymwybyddiaeth iaith. Bydd y Coleg yn ymgynghori gyda'r Ganolfan cyn comisiynu prosiect, er mwyn sicrhau cydlyniant gyda datblygiadau a noddir gan y ddau gorff ac er mwyn osgoi dyblygu.

## Canllawiau eraill

8. Bydd unrhyw adnoddau a ddatblygir ar ôl derbyn cyllid drwy'r Gronfa Datblygiadau Strategol yn cael eu gosod ar lwyfannau e-ddysgu'r Coleg, e.e. Y Llyfrgell Adnoddau, Yr Esboniadur a/neu safle iTunes U y Coleg (oni nodir yn wahanol yn y cais grant).
  
9. Trwyddedir adnoddau/cyhoeddiadau ar lwyfannau e-ddysgu'r Coleg o dan drwydded *Creative Commons* e.e. [CC BY-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/) oni bai y ceir amgylchiadau arbennig, ac y cytunwyd yn ysgrifenedig ar yr amgylchiadau arbennig hynny gan y Coleg cyn dyfarnu'r grant. Cyfrifoldeb rheolwr y prosiect yw sicrhau bod cyfranwyr yn ymwybodol o'r drefn hon, ac yn cydsynio iddi. Cyfrifoldeb rheolwr y prosiect yw clirio hawlfraint. Dylid nodi ar ba ffurf y rhagwelir cyhoeddi neu lwyfannu unrhyw adnodd a fydd yn deillio o'r prosiect a pha gamau a gymerir er mwyn gosod trwydded *Creative Commons* ar yr adnodd.
  
10. Gellir cysylltu â Swyddog Cyhoeddiadau'r Coleg (Mari Fflur [m.fflur@colegcymraeg.ac.uk](mailto:m.fflur@colegcymraeg.ac.uk)) os am wybodaeth bellach ynglŷn â chanllawiau cyhoeddi'r Coleg.

## Amserlen

11. Dylid cyflwyno cynigion llawn **erbyn 12:00 3 Mawrth 2017** ar y ffurflen sydd wedi ei hatodi. Anogir pawb sy'n bwriadu ymgeisio i drafod gyda chyd-darlithwyr yn y pwnc, swyddogion perthnasol y Coleg (swyddogion academiaidd a swyddogion adnoddau / cyhoeddiadau) erbyn y 6 Chwefror fel bod modd datblygu'r syniadau yn addas ar gyfer y cynnig terfynol.



## Dogfen Cynnig Prosiect

Mae'n ofynnol i bob cais am gyllid o'r gronfa gael ei gyflwyno yn unol â'r broses a amlinellir mewn Cylchlythyr, gan ddefnyddio'r ffurflen hon.

Dylid anfon copi electronig o'r cais i [prosiectau@colegcymraeg.ac.uk](mailto:prosiectau@colegcymraeg.ac.uk)

Manylion	
Sefydliad:	
Pwnc:	
Cod(au) JACS y pwnc:	
Enw cyswllt yn y sefydliad:	
Swydd:	
Rhif ffôn:	
E-bost:	
Teitl arfaethedig y prosiect:	
Rheolwr y prosiect arfaethedig:	
E-bost:	

## Y Prosiect Arfaethedig

Amlinellwch yn gryno (rhwng 100 a 200 o eiriau) natur y prosiect arfaethedig.

Nodwch berthnasedd y cais hwn i gynlluniau cyfrwng Cymraeg y sefydliad.

Nodwch yr unigolion fydd yn gweithio ar y prosiect, gan gynnwys diffinio'n glir un person a fydd yn gweithredu fel Rheolwr y Prosiect. Dylech gyfeirio yma at unrhyw brofiad perthnasol o reoli prosiectau. Dylech hefyd nodi os yw'n fwrriad i gydweithio â sefydliadau eraill wrth gyflawni'r prosiect.

**Amlinellwch gyllideb arfaethedig y prosiect.** Dylid adnabod cyfanswm yr arian yr ymgeisir amdano, a dylid darparu manylion am y gwariant yn eglur dan brif benawdau. Gofynnir i chi sicrhau fod y manylion ariannol a amlinellir yn realistig. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i bennu maint y grant a ddyrannir i bob prosiect mewn dull sy'n sicrhau cysondeb yn y lefel o gefnogaeth a roddir i brosiectau unigol.

Nodwch os oes cyllideb ychwanegol yn dod oddi wrth ffynhonnell arall neu os yw'n fwrriad i geisio am gyllideb o ffynhonnell arall. Dylid nodi cyfanswm y cyllid a geisir amdano ac amserlen y cais hwnnw. Os nad yn berthnasol, dylid nodi hynny.

**Amserlen y Prosiect.**

Nodwch yn fras amserlen y prosiect gan nodi hyd y prosiect, a chamau cynnydd pwrpasol y prosiect, lle bo hynny'n briodol.



**Risg.**

Nodwch unrhyw elfen o risg rydych wedi ei adnabod i lwyddiant y prosiect gan amlinellu eich ymateb i'r risg.

**Cyflawniadau'r Prosiect.**

Nodwch yn gryno ganlyniadau'r prosiect, gan nodi'r hyn a fydd wedi ei gynhyrchu a / neu ei gyflawni drwy dderbyn cyllid o'r Gronfa. Dylid sicrhau fod y cyflawniadau a nodir yn eglur, ac yn fesuradwy. Dylid nodi ar ba ffurf y rhagwelir cyhoeddi neu lwyfannu unrhyw adnodd fydd yn deillio o'r prosiect a pha gamau a gymerir er mwyn gosod trwydded agored *Creative Commons* e.e. CC BY-SA 4.0 ar yr adnodd.

**Deilliannau'r Prosiect.**

Nodwch yn gryno ddeilliannau ehangach y prosiect, gan gynnwys y cyfraniad a wneir tuag at gyflawni'r nodau strategol a nodir yn y Cynllun Pwnc perthnasol a/neu yng Nghynllun Academaidd y Coleg.

**Llofnod Cynrychiolydd Sefydliadol Awdurdodedig**

Enw	
Swydd	
Llofnod	
Dyddiad	